

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod:03.06.2014**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol :Y Cyngorwyr ; Elfed Davies, Arwel Nicholas, Wyn Thomas, Carolyn Smethurst, Pamela Jones, Cyngorydd Sîr, Irfon Jones. Ymddiheuriadau:Dylan Jones, Malcolm Howells, Danny Davies.**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Pendefyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Cofnodion	Cytunwyd eu bod yn gywir. Cynnigiwyd gan WT ac eiliwyd gan AN	
Cofnodion y CCB 06.05.2014	Cytunwyd eu bod yn gywir. Cynnigiwyd gan WT ac eiliwyd gan AN	
Materion yn codi	<p><b>Carthion</b>; Dŵr Cymru wedi cael gwahoddiad I adrodd l'r Cyngor ond heb gadarnhau eu bwriadau eto</p> <p><b>Llwyn Tŷ Nant</b>; IJ yn dweud fod y Cyngor Sîr wedi penderfynnu peidio gorfodi torri'r llwyn. Y tŷ bron a bod wedi ei werthu, PJ yn ystyried beth fydd agwedd y perchnogion newydd. CS yn cyfeirio at llythyr Richard Workman Ionawr 2014 sydd yn dweud nad ydi'r llwyn yn peri trafferth. MH (yn ei absenoldeb) am ysgrifennu at yr Aelod Seneddol a'r Aelod l'r Cynulliad. IJ yn siarad gyda Tony Williams ddiwedd yr wythnos ac yn codi'r mater unwaith eto. Os na ddaw llwyddiant, pawb yn gytun rhaid danfon llythyron o gwyn/gofyn am esboniad, l'r Prif Weithredwr</p> <p><b>Cadw'r Sîr yn Daclus</b>; CS yn gofyn a oes gan rhywun ddiddordeb l gymeryd at y gwaith? Offer defnyddiol ar gael gyda'r Sîr l gynorthwyo gyda'r gwaith.</p> <p><b>Sbwriel ar Rhiw Graig</b>; ysgrifennu at McDonalds unwaith eto</p> <p><b>Rhiw Graig</b>; cyflwr yr heol yn ddifrifol ac yn dirywio; dim addewid pa bryd fydd y gwaith yn cael eu wneud.</p> <p><b>Blychau BT</b>; Barry Wade yn fodlon gwneud silffoedd am ddim. Zurich yn hapus gyda'r yswiriant.</p> <p><b>Dŵr ar yr heol gerllaw Dyffryn</b>; mater l Tony Williams eto, rhaid ei atgoffa trwy lythyr.</p> <p><b>Safle Ailgylchu</b>; Clerc yn rhannu gwybodaeth am bolisi gwagio'r biniau. Cais l wagio'r biniau gwydr yn amlach ac l ail leoli y bin Dillad.</p> <p><b>Gostwng cyflymdra l 20 mya</b>; PJ yn gofyn pa bryd y bydd hyn yn digwydd. Angen cysylltu gyda John McEvoy.</p> <p><b>Llwybrau Diogel l Gymunedau</b>; Clerc heb gael ateb oddi wrth Mathew Howells, angen cysylltu gyda fe eto.</p> <p><b>Y Wefan</b>; bellach yn weithredol. CS l siarad gyda Jeremy Clulow l wneud newidiadau bach l'r cyswllt o wefan y Pentref l</p>	

	dudalen y Cyngor	
Gohebiaeth	<b>Arolwg ar dalu Cynghorwyr</b> ; barn pawb oedd mae gwasanaeth l'r Gymuned oedd y gwaith a wnaed gan y Cynghorwyr felly dim angen tâl. Mae eisioes hawl l ofyn am gostau treuliau am wneud gwaith allan o'r Gymuned <b>Yswiriant Zurich</b> ; atgoffa'r Cyngor bod angen talu ym Mis Gorffennaf	
Cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Melin Wynt Glancorwg – wedi ei ganiatau</li> <li>• Cais am estyniad dau llawr ym Mwlch Trap – cefnogi. Cynnigiwyd gan CS a WT yn eilio.</li> </ul>	
Materion Ariannol	Jeremy Clulow, Webs Wonder - £500.00. Cynnigiwyd ac eiliwyd talu gan AN a PJ. Clerc l fancio arian Grant Cyngor Sîr o £500.00 gan fod gwaith y We wedi ei orffen. Delyth Charles, Cyfieithu - £30.00 Cynnigiwyd ac eiliwyd gan CS a WT Derbyniwyd £25.00 rhent am y Tŷ Hers. Cyfrifon y Cyngor – cytunwyd eu bod yn gywir Arolwg BDO – wedi ei gwblhau	
UFA	<b>AN</b> : Beth am gofrestru y Tŷ Hers? MH sydd a gwybodaeth am y mater. CS yn holi a dylid codi'r rhent? WT yn esbonio mae anodd oedd cael neb l gymeryd yr adeilad, felly cadw'r rhent yr un. Y Clerc l siarad gyda Derick Lock ynglyn â'r mater. CS yn gofyn am gofrestru Cysgodfannau'r Bws; Clerc l drafod y mater gyda Derick Lock <b>WT</b> – Dim <b>CS</b> – Polisi Cymraeg y Cyngor; angen ei ddiwygio. l'w drafod yng nghyfarfod Mis Gorffennaf. Y Clerc l'w ddarllen a gwneud awgrymiadau. <b>PJ</b> – Dim <b>ED</b> – Dim	
Cyfarfod yn gorffen	9.00yh	

Cafwyd yn gywir : .....	Cafwyd yn gywir : .....
(Cadeirydd)	(Ysgriennydd)
Dyddiad : .....	Dyddiad: .....